# Dychwelyd i Nasareth

Yn Efengyl Mathew, gallwch ddarllen am ymweliad y gwŷr doeth, ymateb y Brenin Herod a sut wnaeth y Teulu Sanctaidd (Mair, Joseff a'r baban Iesu) ddianc i'r Aifft.

***Ar ôl i Herod farw fe wnaeth angel yr Arglwydd ymddangos i Joseff mewn breuddwyd yn yr Aifft a dweud wrtho, "Dos â'r plentyn a'i fam yn ôl i wlad Israel. Mae'r bobl oedd am ei ladd wedi marw." Felly, dyma Joseff yn dychwelyd i Israel gyda'r plentyn a'i fam. Ond pan glywodd Joseff mai Archelaus, mab Herod, oedd llywodraethwr newydd Jwdea, roedd ganddo ofn mynd yno. Cafodd ei rybuddio mewn breuddwyd eto, a throdd i gyfeiriad Galilea, a mynd i fyw i dref Nasareth. Felly daeth yr hyn ddwedodd y proffwydi am y Meseia yn wir unwaith eto: "Bydd yn cael ei alw yn Nasaread."***

***Mathew 2:19-23*** *(beibl.net)*

- Hyd yn oed pan oedd yna gyfnodau heriol a pheryglus parhaodd Mair a Joseff i ufuddhau i Dduw. Pam wyt ti'n meddwl y gwnaethon nhw hyn?
- Pam wyt ti'n meddwl wnaeth Duw siarad gyda Joseff drwy freuddwydion?
- Doedd cael eich galw'n Nasaread ddim yn beth neis! Pam wyt ti'n meddwl wnaeth Duw ddewis i'r Achubwr ddod o dref amhoblogaidd roedd pobl yn edrych i lawr arni

# Beth Ddigwyddodd Nesaf?

Ar ôl ymweliad y bugeiliaid, mae Efengyl Luc yn esbonio sut wnaeth Mair a Joseff ddilyn y traddodiadau a'r defodau Iddewig roedd disgwyl i rieni bachgen bach eu dilyn.

***Pan oedd Joseff a Mair wedi gwneud popeth roedd Cyfraith yr Arglwydd yn ei ofyn, dyma nhw'n mynd yn ôl adre i Nasareth yn Galilea. Tyfodd y plentyn yn fachgen cryf a doeth iawn, ac roedd hi'n amlwg bod ffafr Duw arno***

***Luke 2:39-40*** *(beibl.net)*

- Pam wyt ti'n meddwl fod dilyn cyfraith Duw mor bwysig i Mair a Joseff? Beth mae hyn yn ei ddangos amdanyn nhw?
- Pa fath o groeso wyt ti'n ei feddwl fyddai Mair a Joseff wedi'i gael pan gyrhaeddon nhw nôl i Nasareth?
- Beth wyt ti'n meddwl mae'n ei olygu fod Iesu'n fachgen doeth?
  Sut wyt ti'n meddwl wnaeth e ddatblygu'n fachgen doeth?
- Mae'n hawdd iawn anghofio mai Iesu, dŷn ni'n ei gofio'n fabi bach adeg y Nadolig,oedd yr un fu farw ac atgyfodi adeg y Pasg. Sut fachgen wyt ti'n meddwl oedd Iesu?

# Iesu'n Cael ei Gyflwyno yn y Deml

Aeth Mair a Joseff i gyflwyno Iesu i'r Arglwydd yn y deml, fel roedd disgwyl iddyn nhw yn ôl cyfraith Moses. Fe wnaethon nhw gyfarfod dyn sanctaidd o'r enw Simeon, oedd wedi cael y gallu arbennig i adnabod yr un fyddai'n achub Israel – y Meseia, yr Achubwr roedd yr Iddewon wedi bod yn disgwyl amdano. Dechreuodd Simeon ganu mawl i Dduw pan welodd y baban Iesu.

***Roedd Mair a Joseff yn rhyfeddu at y pethau oedd yn cael eu dweud am Iesu. Yna dyma Simeon yn eu bendithio nhw, a dweud wrth Mair, y fam: "Bydd y plentyn yma yn achos cwymp i lawer yn Israel ac yn fendith i eraill. Bydd yn rhybudd sy'n cael ei wrthod, a bydd yr hyn mae pobl yn ei feddwl go iawn yn dod i'r golwg. A byddi di'n dioddef hefyd, fel petai cleddyf yn trywanu dy enaid di."***

***Luc 2:33-35** (beibl.net)*

- Gwyddai Mair a Joseff fod Iesu yn faban sbesial gan Dduw, felly pam wyt ti'n meddwl eu bod wedi cael sioc clywed Simeon yn canu mawl i Dduw a dweud y pethau hyn?

- Beth wyt ti'n meddwl roedd Simeon yn ei olygu pan ddwedodd y byddai Iesu, "yn rhybudd sy'n cael ei wrthod".

- Beth wyt ti'n meddwl roedd Simeon yn ei olygu pan ddwedodd wrth Mair, "A byddi di'n dioddef hefyd, fel petai cleddyf yn trywanu dy enaid di."

# Dianc i'r Aifft

***Ar ôl i'r (gwŷr doeth) fynd, cafodd Joseff freuddwyd arall. Gwelodd angel Duw yn dweud wrtho, "Rhaid i chi ddianc ar unwaith! Dos â'r plentyn a'i fam i'r Aifft, ac aros yno nes i mi ddweud ei bod yn saff i chi ddod yn ôl. Mae Herod yn ceisio dod o hyd i'r plentyn er mwyn ei ladd."***

***Mathew 2:13** (beibl.net)*

- Wyt ti'n meddwl y byddai Joseff wedi'i chael hi'n hawdd neu'n anodd i ufuddhau i'r freuddwyd hon? Esbonia dy ateb.
- Sut wyt ti'n credu fyddai Mair wedi ymateb i'r newyddion hwn?
- Sut wyt ti'n meddwl wnaeth Mair a Joseff ddod dros y tro annisgwyl hwn ar eu taith?
- Pam wyt ti'n meddwl bod Herod mor benderfynol o ladd y babi arbennig hwn?
- Mae llawer iawn o bobl heddiw yn gorfod dianc o sefyllfaoedd peryglus, a dydyn nhw ddim yn gwybod os y byddan nhw'n gweld eu cartrefi byth eto. Mae nhw'n cael eu galw'n ffoaduriaid. Dychmyga pe byddet ti'n cael deg munud i bacio bag cyn gorfod dianc i ddiogelwch. Beth fyddet ti'n ei roi ynddo? Beth fyddet ti ei angen? Beth fyddet ti ei eisiau?

# Addo Arweinydd

***Ond wedyn ti, Bethlehem Effrata, rwyt ti'n un o'r pentrefi lleiaf pwysig yn Jwda. Ond ohonot ti y daw un fydd yn teyrnasu yn Israel – Un sydd â'i wreiddiau yn mynd yn ôl i'r dechrau yn y gorffennol pell.***
***Bydd yn codi i arwain ei bobl fel bugail yn gofalu am ei braidd. Bydd yn gwneud hyn yn nerth yr ARGLWYDD a gydag awdurdod yr ARGLWYDD ei Dduw. Byddan nhw yno i aros, achos bydd e'n cael ei anrhydeddu gan bawb i ben draw'r byd. Bydd e'n dod â heddwch i ni.***

***Micha 5:2,4,5** (beibl.net)*

- Wyt ti'n gallu disgrifio adeg pan mae pobl gyffredin, nid y bobl bwysig, wedi gwneud gwahaniaeth am ryw reswm? (e.e. protestiadau, deisebau, etc.)
- Beth wyt ti'n ei feddwl mae e'n ddweud am Dduw, ei fod wedi dewis pentref bach ddi-nod fel Bethlehem fel man geni arweinydd Israel, yn hytrach na dinas Jerwsalem,cartref y brenin?
- Proffwydodd Micha tua 700 mlynedd cyn i Iesu gael ei eni. Pam wyt ti'n meddwl wnaeth Duw rannu ei gynlluniau gyda'i bobl fel yma?
- Dyma'r broffwydoliaeth y soniwyd amdani wrth y Brenin Herod pan oedd y gwŷr doeth yn chwilio am y baban newydd (Iesu). Pam wyt ti'n meddwl fod Herod wedi ypsetio am hyn?

# Goleuni'r Byd

Dydy hanes geni Iesu ddim i'w weld yn Efengyl Ioan, ond mae'n disgrifio Duw ac yn esbonio pam ddaeth Iesu i'r byd.

***Roedd y golau go iawn,***
***sy'n rhoi golau i bawb,***
***ar fin dod i'r byd.***

**Ioan 1:9** **(beibl.net)**

- Sawl ffynhonnell wahanol o olau elli di eu henwi?
- Ymhle yn stori'r Nadolig mae yna sôn am olau?
- Yng ngwledydd Prydain rydyn ni'n dathlu'r Nadolig yn ystod tymor tywyllaf y flwyddyn – yng nghanol y gaeaf. Pa wahaniaeth wyt ti'n meddwl fyddai'n ei wneud i ddathlu'r Nadolig yn ystod yr haf?
- Mae Cristnogion yn credu mai Iesu yw'r "golau go iawn". Beth wyt ti'n meddwl mae hynny yn ei olygu?
- Sut mae disgrifio Iesu fel y "golau go iawn" yn ein helpu i ddeall cymeriad a rhinweddau Iesu?
- Sut wyt ti'n meddwl mae'r adnod hon yn helpu Cristnogion yn eu ffydd?

# Y Daith i Fethlehem

***Roedd pawb yn mynd adre i'r trefi lle cawson nhw eu geni, i gofrestru ar gyfer y cyfrifiad. Felly gan fod Joseff yn perthyn i deulu'r Brenin Dafydd, gadawodd Nasareth yn Galilea, a mynd i gofrestru yn Jwdea – yn Bethlehem, hynny ydy tref Dafydd. Aeth yno gyda Mair oedd yn mynd i fod yn wraig iddo, ac a oedd erbyn hynny'n disgwyl babi.***

***Luc 2:3-5** (beibl.net)*

- Mae Bethlehem ryw 70 milltir o Nasareth. Wyt ti'n gallu dyfalui ble fyddet ti'n teithio sydd 70 milltir i ffwrdd? Allet ti ddychmygu cerdded yna? Beth fyddai ei angen arnat ti i'th helpu ar daith felly?

- Sut wyt ti'n meddwl roedd Mair a Joseff yn teimlo o wybod fod rhaid iddyn nhw wneud y fath daith, a Mair mor agos at gael ei babi?

- Sut wyt ti'n meddwl fod trystio Duw wedi eu helpu Mair a Joseff ar y daith?

- Sut wyt ti'n meddwl roedden nhw'n teimlo pan gyrhaeddon nhw Bethlehem?

- Os oedd teulu Joseff yn dod o Bethlehem mae'n siŵr bod ganddo berthnasau yn dal i fyw yna. Pam wyt ti'n meddwl wnaeth neb gynnig lle iddyn nhw aros? (Meddylia am gyflwr Mair.)

# Y Brenin Herod Fawr

Roedd y Brenin Herod eisiau gwybod popeth am y brenin oedd newydd ei eni, ac roedd e am i'r gwŷr doeth ddod nôl i ddweud wrtho am y plentyn.

***Aeth Herod yn wyllt gynddeiriog pan sylweddolodd fod y gwŷr doeth wedi'i dwyllo. Anfonodd filwyr i Bethlehem a'r cylch i ladd pob bachgen bach dan ddwyflwydd oed – hynny ar sail beth oedd y gwŷr doeth wedi'i ddweud wrtho am y dyddiad y daeth y seren i'r golwg.***

***Mathew 2:16** (beibl.net)*

- Pam wyt ti'n meddwl fod Herod wedi gwneud peth mor eithafol?
- Pam wnaeth Herod fethu lladd Iesu?
- Wyt ti'n meddwl fod y gwŷr doeth wedi twyllo Herod yn fwriadol? Pam neu pam ddim?
- Sut wyt ti'n meddwl fyddai pethau wedi bod yn wahanol petai'r gwŷr doeth heb fynd i weld Herod pan oedden nhw'n chwilio am Iesu?
- O'r hyn rwyt ti'n ei wybod cymhara'r ddau frenin, Herod ac Iesu.

# Y Gwŷr Doeth yn Addoli

***Pan aethon nhw i mewn i'r tŷ, dyna lle roedd y plentyn gyda'i fam, Mair, a dyma nhw'n disgyn ar eu gliniau o'i flaen a'i addoli. Yna dyma nhw'n agor eu paciau a rhoi anrhegion gwerthfawr iddo – aur a thus a myrr. Rhybuddiodd Duw nhw mewn breuddwyd i beidio mynd yn ôl at Herod, felly dyma'r gwŷr doeth yn teithio yn ôl i'w gwlad eu hunain ar hyd ffordd wahanol.***

***Mathew 2:11-12** (beibl.net)*

- Pwy oedd y gwŷr doeth yn meddwl oedd Iesu?
- Beth wyt ti'n gredu oedd yn mynd trwy feddyliau'r gwŷr doeth pan ddaethon nhw o hyd i'r brenin bach mewn lle mor dlawd?
- Beth wyt ti'n gredu roedd Mair a Joseff yn ei feddwl o anrhegion y gwŷr doeth? Wyt ti'n meddwl eu bod yn deall eu harwyddocâd?
- Beth wyt ti'n meddwl ddigwyddodd i'r anrhegion ar ôl i'r gwŷr doeth adael?
- Wyt ti'n meddwl fod y gwŷr doeth wedi dweud wrth eraill am beth ddigwyddodd? Pam neu pam ddim?

# Taith y Gwŷr Doeth

***Cafodd Iesu ei eni yn Bethlehem yn Jwdea, yn y cyfnod pan oedd Herod yn frenin. Ar ôl hynny, daeth gwŷr doeth o wledydd y dwyrain i Jerwsalem i ofyn,***

***"Ble mae'r un sydd newydd gael ei eni yn frenin yr Iddewon? Gwelon ni ei seren yn codi yn y dwyrain, a dŷn ni yma i dalu teyrnged iddo."***

***Mathew 2:1-2** (beibl.net)*

- Fyddet ti'n cychwyn ar daith heb wybod i ble roeddet ti'n mynd?
- Pam wyt ti'n meddwl aeth y gwŷr doeth at y brenin Herod yn Jerwsalem am wybodaeth?
- Beth wyt ti'n meddwl roedd y gwŷr doeth yn gobeithio dod o hyd iddo?
- Beth wyt ti'n meddwl roedd y gwŷr doeth yn ei olygu pan ddwedon nhw eu bod eisiau talu teyrnged i'r brenin newydd?

# Duw

***Ydy, mae Duw wedi caru'r byd cymaint nes iddo roi ei unig Fab, er mwyn i bwy bynnag sy'n credu ynddo beidio mynd i ddistryw ond cael bywyd tragwyddol.***

***Ioan 3:16** (beibl.net)*

Mae Cristnogion yn credu fod Duw wedi dangos ei gariad at bobl y byd drwy anfon ei fab ei hun, Iesu, i gael ei eni yn berson dynol ac i fyw gyda phobl eraill ar y ddaear. Dwedodd Iesu wrth bobl am ei dad nefol a faint roedd e'n eu caru nhw. Mae'r Beibl yn dweud fod credu mai Iesu yw mab Duw a derbyn cariad Duw yn adfer y berthynas agos gyda Duw gafodd ei thorri gan Adda ac Efa.

- Pam wyt ti'n meddwl mae pobl mor bwysig i Dduw? (Meddylia am stori'r creu ar ddechrau'r Beibl.)

- Pam wyt ti'n meddwl fod anfon Iesu i'r byd fel babi dynol yn profi fod Duw yn caru'r ddynoliaeth?

- Pam wyt ti'n meddwl fod dathlu'r Nadolig bob blwyddyn yn bwysig i Gristnogion?

- Allwch chi egluro beth yw ffydd?

# Joseff

***Roedd wedi bod yn meddwl am hyn pan gafodd freuddwyd: gwelodd angel Duw yn dod ato a dweud wrtho, "Joseff fab Dafydd, paid petruso mynd â Mair adre i fod yn wraig i ti, am mai'r Ysbryd Glân sydd wedi gwneud iddi feichiogi."***

***Mathew 1:20** (beibl.net)*

Dangosodd Joseff ei gariad at Dduw (a Mair) drwy fod yn ufudd i Dduw a gwneud rhywbeth nad oedd yn siŵr amdano.

- Pam wyt ti'n meddwl wnaeth Duw anfon angel i siarad gyda Joseff?
- Pam wyt ti'n meddwl fod geiriau'r angel wedi gwneud i Joseff newid ei feddwl?
- Sut wyt ti'n meddwl roedd Mair yn teimlo pan sylweddolodd fod Joseff yn mynd i sefyll gyda hi?
- Pa eiriau fyddet ti'n eu defnyddio i ddisgrifio cymeriad Joseff?
- A yw'n haws gwneud rhywbeth anodd pan wyt ti'n nabod ac yn trystio'r person sydd wedi gofyn i ti ei wneud? Pam?

# Y Bugeiliaid yn gweld Iesu

***Ar ôl ei weld, dyma'r bugeiliaid yn mynd ati i ddweud wrth bawb beth oedd wedi digwydd, a beth ddwedodd yr angel wrthyn nhw am y plentyn yma. Roedd pawb glywodd am y peth yn rhyfeddu at yr hyn roedd y bugeiliaid yn ei ddweud. Aeth y bugeiliaid yn ôl i'w gwaith gan ganmol a moli Duw am bopeth roedden nhw wedi'i weld a'i glywed. Roedd y cwbl yn union fel roedd yr angel wedi dweud.***

***Luc 2:17,18,20*** *(beibl.net)*

- Wyt ti'n gallu meddwl am rywbryd pan oeddet ti mor gynhyrfus, dy fod eisiau dweud wrth bawb beth oedd wedi digwydd? Pam oeddet ti eisiau dweud wrth bawb?

- Pa fanylion o'r noson honno (o'r pryd daeth yr angel i'r golwg gyntaf) wyt ti'n gredu fyddai'r bugeiliaid yn ei gofio orau ac eisiau dweud wrth bawb am y peth?

- Pa gwestiynau neu sylwadau wyt ti'n meddwl fyddai gan rai pobl i'r bugeiliaid?

- Pam wyt ti'n meddwl fod y bugeiliaid wedi moli Duw?

# Y Neges i'r Bugeiliaid

Yn ail bennod efengyl Luc mae'r hanes am yr angylion yn ymddangos i grŵp o fugeiliaid oedd allan ar y bryniau ger Bethlehem. Dywedodd yr angylion wrth y bugeiliaid am eni Iesu.

***Ond dyma'r angel yn dweud wrthyn nhw, "Peidiwch bod ofn. Mae gen i newyddion da i chi! Newyddion fydd yn gwneud pobl ym mhobman yn llawen iawn."***

***Luc 2:10** (beibl.net)*

Roedd bugeiliaid yn bobl dlawd a di-addysg, a byddai pobl eraill yn y gymdeithas wedi edrych i lawr arnyn nhw.

- Beth wyt ti'n meddwl wnaeth y bugeiliaid ei ddweud a'i wneud pan welon nhw'r angylion gyntaf?
- Pam wyt ti'n meddwl fod Duw wedi dewis bugeiliaid i fod y rhai cyntaf i wybod am eni Iesu?
- Beth wyt ti'n meddwl mae hyn yn ei awgrymu am y math o frenin fyddai Iesu?
- Pe bai Iesu wedi'i eni heddiw, pa grwpiau o bobl yn y gymdeithas wyt ti'n credu fyddai Duw wedi dewis rhannu'r newyddion da gyda nhw gyntaf? Pam?

# Mair, Mam Iesu

Ar ôl i'r baban Iesu gael ei eni a'r bugeiliaid
wedi bod i ymweld ag e, mae'r Beibl yn dweud:

***Ond roedd Mair yn cofio pob manylyn
ac yn meddwl yn aml am y cwbl oedd
wedi cael ei ddweud am ei phlentyn.***

***Luc 2:19*** *(beibl.net)*

- Wrth i ti edrych yn ôl ar dy fywyd, pwy yw'r bobl wyt ti'n eu cofio am eu bod wedi creu argraff arnat ti? Pam hynny?
- Pa atgofion am y Nadolig cyntaf wyt ti'n meddwl oedd Mair yn eu trysori fwyaf?
- Sut wyt ti'n meddwl wnaeth ymweliad y bugeiliaid galonogi Mair a Joseff?
- Sut wyt ti'n meddwl roedd Mair yn cofio "pob manylyn" wrth iddi wylio ei mab Iesu (bellach yn ddyn) yn cael ei arestio ac yn marw ar groes adeg Gŵyl y Pasg?

# Mair - dewis Duw

Yn Luc, pennod 1,
mae hanes yr angel Gabriel yn mynd i weld Mair i ddweud wrthi fod Duw wedi'i dewis hi i gael ei fab.

***"Dw i eisiau gwasanaethu'r Arglwydd Dduw. Felly gad i beth rwyt wedi'i ddweud ddod yn wir." Wedyn dyma'r angel yn ei gadael hi.***

***Luc 1:38*** ***(beibl.net)***

- At bwy roedd Mair yn dangos cariad drwy gytuno i wneud beth ddwedodd yr angel wrthi'i wneud?
- Beth wyt ti'n meddwl roedd Mair yn ei olygu pan ddwedodd, "Dw i eisiau gwasanaethu'r Arglwydd Dduw."?
- Pa gwestiynau wyt ti'n meddwl fyddai gan Mair i'w gofyn i Dduw?
- Wyt ti wedi cael dy ddewis i wneud rhywbeth arbennig erioed? Pam wyt ti'n credu gefaist ti dy ddewis?
- Pam ydych chi'n meddwl y dewisodd Duw Mair?